COVID-19 Update: 29th June
In today's COVID-19 update from Cardiff Council: today's reopening of schools across the city; the areas of the city that will receive a garden waste collection this coming Saturday; and delivering food parcels for care leavers.

Schools reopened in Cardiff today

Cardiff saw 6,600 children and young people returning to the classroom today, as the city's schools reopened to provide the 'check in, catch up, prepare' approach announced by Welsh Government on the 3rd June.

In order to maintain social distancing, up to one third of pupils and students are in school at any one time. This means that there are staggered starts for the children and young people, with timetabled check in and catch up sessions taking place between now and the end of term, on 20th July.

There was a lot of media interest as the school gates reopened in the capital, with journalists reporting, both nationally and regionally, from six of our schools during the day.

In the run up to today's opening, schools have been issuing information, and the Council has been providing guidance.

Frequently Asked Questions have been published on the Council's website, providing answers on a range of topics, including health and safety, the curriculum and childcare.

Click here to view the FAQs:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/FAQ-for-parents-and-pupils/Pages/default.aspx

The Council has also produced a child friendly version of the FAQS, which can be found here:
https://www.childfriendlycardiff.co.uk/schools/school-restart-information-for-children-and-young-people/

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry, said: "I want to thank everyone involved in the planning and careful management that has been required to reopen our schools, so that the children and young people can check in, catch up and prepare for September.

"I know that a lot of children will have been excited at the thought of seeing their teachers and friends today, but equally, there will have been parents, and staff, who were feeling anxious about children returning to school, which is why so much work has gone in to the health and safety of our schools during the past weeks."

Since the lockdown began on 23rd March, education in Cardiff has continued through online distance learning, enabled by teachers with support from the Council and the Central South Consortium.

The Council has provided over 6,000 Chromebooks to pupils across the city who were not equipped with devices at home, and 4G internet connectivity to 1,700 of these via mobile devices.

Cllr Merry added: “The strict social distancing measures we have put in place has seen schools operating at reduced capacity, with significantly fewer pupils in school at any one time.

“This means that during the week, most pupils will continue to learn from home, and I also want to thank the staff involved in ensuring that those families in need, now have the necessary devices and connectivity in order to access their schools’ online teaching.”

During the lockdown, 25 schools have been operating as Keyworker Childcare Hubs, providing childcare to an average of 450 children per day. These hubs have also provided essential support for vulnerable learners, referred for support by our new Vulnerable Learners Panel. Now that schools have re-opened, childcare has transferred to the pupils’ home school for the remainder of the summer term.

Garden waste collection areas this coming Saturday

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Friday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 4th July**.

The one-off garden waste collections continue into June and the first week of July, so that residents are able to dispose of their grass cuttings, small twigs and branches, leaves, and plant and flower cuttings.

These are the only waste types which should be put in your green wheelie bin or reusable bags.

Residents are being reminded that they should only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

If incorrect items are placed in the green bin or the re-usable sacks, a pink sticker will be placed on the container to notify the resident that incorrect items have been put out for collection and the waste will not be collected.

Delivering food parcels for care leavers

The Personal Adviser Service based at Hafan Gobaith have been #WorkingTogether with Porsche Centre Cardiff on Penarth Road to support young care leavers, offering work placements to allow these young people to try all aspects of the business including reception, valeting, workshop, marketing and social media.

The working relationship has provided many young people with opportunities to gain work experience and transferable skills for their CV's to help with future employment.

During lockdown, Porsche Centre Cardiff employees have continued to offer support by donating food which the Personal Adviser Team were able to use for food parcels that were delivered to care leavers most in need during this time.

Diweddariad COVID-19: 29 Mehefin

Yn y diweddariad ar COVID-19 a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: blant a phobl ifanc yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth heddiw; yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; a mynd â pharseli bwyd i rai sy'n gadael gofal.

Ail-agorodd ysgolion yng Nghaerdydd heddiw

Gwelodd Caerdydd 6,600 blant a phobl ifanc yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth heddiw, wrth i ysgolion y ddinas ailagor ar gyfer yr 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Mehefin.

Er mwyn cynnal cadw pellter cymdeithasol, mae hyd at draean o ddisgyblion a myfyrwyr yn yr ysgol ar unrhyw un adeg. Mae hyn yn golygu bod y plant a'r bobl ifanc yn dechrau'n gyfnodol, gyda sesiynau ailgydio a dal i fyny ar y gweill rhwng nawr a diwedd y tymor, ar 20 Gorffennaf.

Roedd llawer o ddiddordeb gan y cyfryngau wrth i gatiau'r ysgol ailagor yn y brifddinas, gyda newyddiadurwyr yn gohebu, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, o chwech o'n hysgolion yn ystod y dydd.

Yn y cyfnod cyn yr agor heddiw, mae ysgolion wedi bod yn cyhoeddi gwybodaeth, ac mae'r Cyngor wedi bod yn darparu canllawiau.

Mae Cwestiynau Cyffredin wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor, gan roi atebion ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys iechyd a diogelwch, y cwricwlwm a gofal plant.

Cliciwch yma i weld y Cwestiynnau Cyffredin.
http://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/cwestiynau-cyffredin-i-rieni-a-disgyblion/Pages/default.aspx

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynhyrchu fersiwn o'r Cwestiynnau Cyffredin sy'n addas i blant, sydd i'w gweld yma:
https://www.childfriendlycardiff.co.uk/cy/ysgolion/ail-agor-ysgolion-gwybodaeth-i-blant-a-phobl-ifanc/

Dywedodd y Cynghorydd Sarah Merry, yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau: "Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â chynllunio a'r rheoli gofalus sydd wedi bod yn ofynnol i ailagor ein hysgolion, er mwyn i'r plant a'r bobl ifanc gael ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi.

"Rwy'n gwybod y bydd llawer o blant wedi cyffroi wrth feddwl am weld eu hathrawon a'u ffrindiau heddiw, ond yn yr un modd, roedd yna rieni, a staff, a oedd yn teimlo'n bryderus ynghylch plant yn dychwelyd i'r ysgol, a dyna pam mae cymaint o waith wedi mynd ar iechyd a diogelwch ein hysgolion yn ystod yr wythnosau diwethaf."

Ers dechrau'r clo ar 23 Mawrth, mae addysg yng Nghaerdydd wedi parhau drwy ddysgu o bell ar-lein, a alluogwyd gan athrawon gyda chymorth y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De.

Mae'r Cyngor wedi darparu dros 6,000 Chromebook i ddisgyblion ar draws y ddinas nad oedd dyfeisiau gartref ganddynt, a chysylltedd rhyngrwyd 4G i 1,700 o'r rhain drwy ddyfeisiau symudol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Merry: "Mae'r mesurau cadw pellter cymdeithasol llym rydyn ni wedi'u rhoi ar waith wedi gweld ysgolion yn gweithredu ar gapasiti llai o lawer, gyda nifer sylweddol is ddisgyblion mewn ysgolion ar unrhyw un adeg.

"Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddysgu o'u cartrefi yn ystod yr wythnos, ac rwyf hefyd am ddiolch i'r staff sy'n rhan o'r gwaith o sicrhau bod gan y teuluoedd hynny mewn angen, y dyfeisiau a'r cysylltedd angenrheidiol erbyn hyn er mwyn cael mynediad at addysgu ar-lein eu hysgolion."

Yn ystod y cloi, mae 25 o ysgolion wedi bod yn gweithredu fel Hybiau Gofal Plant i weithwyr allweddol, gan ddarparu gofal plant i 450 o blant y dydd ar gyfartaledd. Mae'r canolfannau hyn hefyd wedi darparu cymorth hanfodol i ddysgwyr agored i niwed, a atgyfeiriwyd i gael cymorth gan ein Panel Dysgwyr Agored i Niwed newydd. Nawr fydd yr ysgolion wedi ail-agor, mae gofal plant wedi ei drosglwyddo i ysgol gartref y disgyblion weddill tymor yr haf.

Yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Gwener** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 4 Gorffennaf**.

Bydd y casgliadau gwastraff gardd untro yn parhau yn ystod mis Mehefin a wythnos gyntaf mis Gorffennaf, fel y gall preswylwyr gael gwared ar eu toriadau glaswellt, brigau a changhennau bach, dail, a thoriadau planhigion a blodau.

Dyma’r unig fathau o wastraff y dylid eu rhoi yn eich bin olwynion gwyrdd neu eich bagiau amldro.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i’w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

Os rhoddir eitemau anghywir yn y bin gwyrdd neu’r sachau amldro, caiff sticer pinc ei roi ar y cynhwysydd i hysbysu’r preswylydd bod eitemau anghywir wedi eu rhoi allan i’w casglu ac ni chaiff y gwastraff ei gasglu.

Mynd â pharseli bwyd i rai sy'n gadael gofal

Mae'r Gwasanaeth Cynghorwyr Personol yn Hafan Gobaith wedi bod yn #Cydweithio gyda Chanolfan Porsche Caerdydd ar Heol Penarth i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnig lleoliadau gwaith i alluogi'r bobl ifanc hyn i roi cynnig ar bob agwedd ar y busnes gan gynnwys gwaith yn y dderbynfa, yn glanhau, yn y gweithdy, yn marchnata ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r berthynas waith wedi rhoi cyfle i lawer o bobl ifanc gael profiad gwaith a sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer eu CVs i helpu gyda chyflogaeth yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod cloi, Chanolfan Porsche Caerdydd wedi parhau i gynnig cymorth drwy gyfrannu bwyd (gweler y llun) y defnyddiodd tîm y Cynghorwyr Personol mewn parseli bwyd a gafodd eu danfon i'r rhai oedd yn gadael gofal ac oedd â'r angen mwyaf yn ystod y cyfnod cloi.